**Sesiwn 2000 - 2001 Rhif 27**

# PAPURAU BUSNES

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD MAWRTH, 31 HYDREF 2000

## RHAN 2 - ADRAN H

**Cychwynnodd y cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd**
Gofynnwyd y **10** cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 6 yn ôl.

**2.32 pm**

Gwnaeth **Gweinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig** ddatganiad ar Adroddiad Phillips ar BSE.

**3.05 pm**

Gwnaeth **Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd** ddatganiad ar y tywydd difrifol a gafwyd yn ddiweddar.

**3.38 pm**

**Pwyntiau o Drefn**
**1.** Cododd **David Melding** y mater o arferion crefyddol o fewn trafodion y Cynulliad.

Cadarnhaodd **y Llywydd** nad oes unrhyw arferion crefyddol penodol o fewn trafodion y Cynulliad.

**2.** Cododd **Ieuan Wyn Jones** faterion o dan Reol Sefydlog 9.2 yn ymwneud ag ethol Cadeiryddion Pwyllgorau Pwnc.

**3**. Holodd **Lorraine Barrett** o dan Reol Sefydlog 6.30 a oedd rhai o'r cwestiynau atodol a ofynnwyd i'r Prif Weinidog yn gynharach yn briodol.

Cadarnhaodd **y Llywydd** y byddai'n edrych ar y Cofnod a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

**4.** Cododd **Dai Lloyd** y pwynt y bu oedi cyn cychwyn cyfarfod y bore o'r Pwyllgor Deddfau oherwydd bod rhai aelodau'n hwyr yn cyrraedd.
Pwysleisiodd **y Llywydd** pa mor bwysig oedd cyfarfodydd y Pwyllgorau a gofynnodd i'r Aelodau sicrhau eu bod yn gallu cyrraedd mewn pryd.

**3.48pm**

**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd y datganiad busnes.
**3.53pm**
**Gwyrdroi Gorchymyn Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol*

yn gwyrdroi'i benderfyniad dyddiedig 19 Hydref 2000 i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais ar wyrdroi'r Gorchymyn:**

O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54

**Cymeradwywyd y cynnig a chafodd y gorchymyn ei wyrdroi**

**Cymeradwyo Gorchymyn Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

a. yn cymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.23A y gorchymyn drafft canlynol:

☐ Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2000 (Cychwyn) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 4 Hydref 2000.

Ac yn

(b) ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ynghylch y gorchymyn drafft hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000 a'r memorandwm cywiriadau parthed rheol sefydlog 22.12A a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54

**Cymeradwywyd y cynnig**

**3.56pm**
**Dadl ar Asesiad Safonol o Wariant Llywodraeth Leol**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cymeradwyo Fformwla newydd yr Asesiad Safonol o Wariant fel dull dosrannu setliad refeniw Llywodraeth Leol 2001-2002.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
**Gwelliant 1 - David Davies (Mynwy)**

Ar ôl y geiriau 'Cynulliad Cenedlaethol' yn llinell 1 dileu "cymeradwyo" a rhoi "nodi'r cynigion ar gyfer" yn ei le. O'r ail linell dileu "fel dull dosrannu setliad refeniw Llywodraeth Leol 2001-02" a rhoi'r canlynol yn ei le: "ond yn cydnabod bod llawer i'w wneud eto. Mae'r Cynulliad yn cydnabod y byddai'n gam gwag i ruthro i wneud y fath newidiadau pwysig i gyllid Llywodraeth Leol oherwydd blaenoriaethau gwleidyddol a bydd yn oedi rhag cyflwyno'r fformwla newydd tan setliad refeniw Llywodraeth Leol 2002-03, er mwyn rhoi digon o gyfle i ymgynghori a newid ymhellach."

**4.08pm**
**Pwynt o Drefn**
Cododd **Janet Davies** y pwynt fod enwau amhriodol yn cael eu defnyddio ar gyfer y pleidiau.

Nododd **y Llywydd** y dylid cyfeirio at yr holl bleidiau gan ddefnyddio'u henwau cofrestredig.

**Gwelliant 2 - Janet Ryder (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig

Mae'r Cynulliad hwn yn:

- Cydnabod pa mor bwysig yw'r fformwla ddiwygiedig fel cam bach tuag at ailddosbarthu cyfoeth a chael cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru, a'i botensial i wneud iawn am y diffyg buddsoddiad dybryd yn ein cymunedau yn ystod y degawdau diwethaf.
- Cydnabod nad rhywbeth i ardaloedd trefol yn unig yw amddifadedd, ond bod cymunedau gwledig hefyd yn dioddef oddi wrth dlodi. Yn yr un modd, mae nifer o gymunedau trefol yn dioddef anawsterau o ran cael gwasanaethau a medru mynd at wasanaethau.
- Cydnabod nad oes digon o ddata ar gael i lunio mynegeion ystadegol, bod prinder data am y gwahanol wardiau a allai ddatgelu pocedi o amddifadedd mewn ardaloedd mwy cefnog yng nghefn gwlad ac mewn trefi, a data ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol personol.
- Cydnabod y byddai newid fformwla yr Asesiad Safonol o Wariant o un flwyddyn i'r llall yn golygu ansefydlogrwydd i lywodraeth leol.
- Nodi bod Is-grp Dosbarthu (DSG) y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid (gweithgor Cyngor Partneriaeth) wedi argymell eu bod yn bwrw'r gwaith ymlaen gyda golwg ar ei gynnwys yn y fformwla yn nes ymlaen.
- Penderfynu gosod dyddiad adolygu ym mis Mai 2003. Bydd yr adolygiad yn ystyried sut orau i ymgorffori'r data newydd sydd ar gael ac unrhyw welliannau i'r fformwla a allai fod yn bosibl ac yn ddymunol.

**Gwelliant 3 - Janet Ryder (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y Cynnig

- Cydnabod, heb drefniadau trosiannol, y bydd angen i rai cynghorau gwtogi'n sylweddol ar eu gwariant neu gynyddu trethi'r cyngor yn sylweddol eleni.
- Mae'r Cynulliad hwn yn derbyn y bydd angen trefniadau trosiannol er mwyn gweithredu'r fformwla newydd yn llwyddiannus.
- Dylai'r trefniadau trosiannol hyn gael eu hariannu yn ychwanegol i'r grant cynnal trethi ac yn rhoi £11 miliwn o'r neilltu yn 2001-02 at y diben hwn.

**Cymerwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**

O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 46 ; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 38; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 30; Ymatal 16; Yn erbyn 8; Cyfanswm 54

**Cymeradwywyd y cynnig**

**5.08pm**
**Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Archwilio**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Rheol Sefydlog 6.5, yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio ar yr adroddiadau a osodwyd gerbron y Cynulliad yn y 12 mis diwethaf, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Hydref 2000.

**Cymerwyd pleidlais:**

O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 36

**Cymeradwywyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.34pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 9.05am ddydd Iau, 2 Tachwedd 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

**DEISEB AT Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Deiseb oddi wrth Cymru Annibynnol yn cyfarwyddo'r Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, i ddiwygio ffurflen cyfrifiad 2001 i gynnwys blwch tic lle cawn ni, y Cymry, gofrestru fel Cymry. Cyfanswm y llofnodion 10,200.**

Tra bod yr oll o'r gwledydd sydd yn llofnodwyr i'r Comisiwn Ewropeaidd dros amddiffyn lleiafrifoedd cenedlaethol wedi arwystlo i ymatal rhag gweithredu polisiau neu ymarferiadau sydd wedi eu hanelu at gymhathu pobloedd sy'n perthyn i leafrifoedd cenedlaethol yn groes i'w hewyllys.

Tra bod ffurflen cyfrifiad 2001, yn ei dyluniad presennol, yn wallus yn hyn o beth gan ei bod yn annog y rhai hynny sy'n ystyried eu hunain yn Gymry i roddi tic yn y blwch 'Prydeinwyr'.

O ganlyniad i'r uchod, rydym ni, y Cymry a lofnododd isod, yn cyfarwyddo Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn i'r Llywodraeth Brydeinig gyfarwyddo'i asiantaeth, y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, i ddiwygio ffurflen cyfrifiad 2001 i gydfynd â'r cwestiwn ar grwp ethnig sydd ar gael i Albanwyr yn yr Alban a Gwyddelod yng Nghymru: bod y ffurflen yn cael ei diwygio i gynnwys blwch tic lle cawn ni, y Cymry, gofrestru fel Cymry.

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 26 HYDREF 2000**

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio – Atodiadau
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 1999/2000

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 25 HYDREF 2000**

LC129 – Adroddiad y Pwyllgor Deddfau – Rheoliadau’r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000

Memorandwm Cywiriadau yn unol â Rheol Sefydlog 22.12A -

Rheoliadau’r Cynlluniau Effeithlonrwydd Ynni Cartref (Cymru) 2000